Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 19 Mehefin 2006
Teitl: Codi'n uwch – Cadeirydd CCAUC yn cael ei urddo'n Farchog

Mae'r Athro Roger Williams, Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), wedi cael ei urddo'n Farchog yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaeth i addysg uwch.

Wrth siarad yng Nghaerdydd, meddai'r Athro Williams:

"Pleser o'r mwyaf i mi yw cael yr anrhydedd hon. Braint arbennig fu cael y cyfle i fod yn Gadeirydd CCAUC ar ôl gweithio y tu allan i Gymru am gymaint o flynyddoedd. Rydw i'n gwerthfawrogi'n fawr waith caled Prif Weithredwr a staff CCAUC sydd wedi fy helpu i gyflawni'r rôl unigryw hon ym maes addysg uwch yng Nghymru. Yn ogystal, rhaid i mi beidio ag anghofio cefnogaeth fy nghyn-weithwyr ym Mhrifysgol Reading, na fyddwn wedi cael y pleser o dderbyn yr anrhydedd hon hebddynt, ac wrth gwrs fy ngwraig a'm teulu sydd, afraid dweud, wrth eu bodd.

"Rydym wedi gwneud llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gryfhau AU yng Nghymru ym maes ymchwil, megis cyfuno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a sefydlu'r Bartneriaeth Ymchwil a Menter rhwng Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Phrifysgol Cymru, Bangor. Mae llawer i'w wneud o hyd ledled Cymru, yn enwedig gwireddu'r weledigaeth o sicrhau darpariaeth ôl-92 gref yn ne-ddwyrain Cymru."

Cafodd yr Athro Williams ei addysg yn Ysgol Gramadeg Tredegar a Choleg Worcester, Rhydychen, lle y mae'n gymrawd anrhydeddus. Yn dilyn cyfnod gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol ym maes Ymchwil Gweithredol, bu ar staff Prifysgol Manceinion o 1966 hyd 1993 a threuliodd gyfnodau ar secondiad yn UDA, Canada ac Awstralia. Bu'n Gynghorwr Arbennig i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg o 1986 hyd 1992 ac yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianneg a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Bu'n Is-Ganghellor Prifysgol Reading o 1993 hyd 2002.

Ymunodd yr Athro Williams â CCAUC fel aelod o'r Cyngor ym 1995 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd ar 1 Mawrth 2002 am gyfnod o 3 blynedd hyd 28 Chwefror 2005. Yna cafodd ei ailbenodi'n Gadeirydd hyd fis Chwefror 2008.

Diwedd.

Cysylltiadau i'r cyfryngau

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225.
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

Nodiadau i Olygyddion

1. Cefndir - CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol

Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

3. Colegau Addysg Bellach

Mae CCAUC yn cyllido peth darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol mewn Colegau Addysg Bellach. Mae'r arian a dderbyniant ar gyfer eu darpariaeth AU yn gyfran fach iawn yn unig o incwm y CABau. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol ar gyfer y sefydliadau hyn. Am y rheswm hwn, nid yw'r Cyngor erioed wedi ceisio cymedroli'r canlyniad cyllido (drwy ymgodi i CMC (*GDP*)) ar gyfer y sefydliadau hyn yn nhermau eu darpariaeth addysg uwch. Mae hyn yn golygu y gall cyllid blwyddyn-ar-flwyddyn ar gyfer darpariaeth addysg uwch mewn CABau amrywio cryn dipyn gan ddibynnu ar nifer y myfyrwyr a recriwtiant.